DYFODOLION TWRISTIAETH YNG NGHYMRU

ADRODDIAD CRYNHOI AR Y PROSIECT DYFODOLION A GYFLAWNWYD GAN GANOLFAN HENLEY

1. CYFLWYNIAD

Mewn marchnad dwristiaeth fwyfwy prysur a chystadleuol, mae pawb sy'n gweithio o fewn y diwydiant angen deall sut y gallai ffactorau sy'n effeithio ar y diwydiant lunio twristiaeth yn y dyfodol. Bydd dealltwriaeth o'r fath yn berthnasol i gynllunio polisi a strategaeth, a hefyd i gynllunio marchnata, datblygu a buddsoddi.

Nid oedd ymarfer Dyfodolion cynhwysfawr wedi ei gyflawni yng Nghymru cyn hyn. Er mwyn hysbysu arolwg canol tymor y strategaeth twristiaeth genedlaethol 'Cyflawni ein Potensial', fe benderfynodd y Bwrdd gomisiynu Canolfan Henley i gyflawni ymarfer Dyfodolion ymgynghorol.

Mae'r Bwrdd Croeso wedi bod yn awyddus i sicrhau fod y canlyniadau a'r argymhellion sy'n codi o'r broses yn berthnasol i'r diwydiant yng Nghymru ar bob lefel. Roeddem am i'r prosiect nodi'r ffactorau allweddol sy'n debygol o effeithio ar dwristiaeth yng Nghymru yn y cyfnod hyd at 2010, ac o ganlyniad i ddatblygu strategaethau cydlynol i gyflawni twf cynaliadwy.

Fe roddwyd y Cwestiwn Prosiect canlynol i Ganolfan Henley:

'Beth mae Bwrdd Croeso Cymru a'i gyfranddalwyr angen ei wneud i optimeiddio buddiannau economaidd a chymdeithasol cynaliadwy i Gymru trwy dwf twristiaeth, erbyn y flwyddyn 2010?'

Roedd dull gweithredu Canolfan Henley yn cynnwys dau weithdy ymgynghorol yn cynnwys y Bwrdd Croeso a chyfranddalwyr o ddiwydiant. Bu'r 'Gweithdy Ysgogwyr' cyntaf yn archwilio'r prif ysgogwyr newid sy'n effeithio ar y diwydiant twristiaeth, tra bod yr ail 'Weithdy Senarios' yn adeiladu ar waith cynharach a datblygu senarios i'w harchwilio ymhellach. Bu trydydd sesiwn yn ystyried oblygiadau polisi'r Bwrdd Croeso yn fanylach.

Bwriedir i ganlyniadau'r prosiect helpu'r Bwrdd a'i gyfranddalwyr i ganolbwyntio a chynllunio'n fwy effeithiol, er mwyn cyrraedd ble yr ydym angen bod erbyn 2010.

Gyda chymaint o ansicrwydd ym myd heddiw a marchnad heddiw i dwristiaeth, mae'n amhosibl i neb ddarogan popeth yn gwbl gywir. Mae'r dull Senarios a ddefnyddiwyd gan Ganolfan Henley yn y prosiect hwn yn, fodd bynnag, darparu dull strwythuredig o ddeall oblygiadau yr effeithiau mwyaf tebygol a phwysicaf. Rydym yn gobeithio y bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn cael ei adeiladu i mewn i strategaethau a chynlluniau ar bob lefel.

2. Y BROSES SENARIOS

Mae senarios yn storïau credadwy a rhesymegol o'r dyfodol sy'n mynd y tu hwnt i allosodiad syml o dueddiadau presennol. Maent yn gyfle i archwilio nifer o ddyfodolion posibl, a thrwy hynny 'ymarfer' canlyniadau posibl. Y gwahaniaeth rhwng senarios a rhagolygon yw fod rhagolygwyr yn dueddol o allosod o'r gorffennol, gan daflunio tueddiadau presennol ar y dyfodol. Mewn cyferbyniad, mae senarios yn ystyried y posibilrwydd y gallai tueddiadau gyfuno neu wrthdaro â thueddiadau eraill, gan greu lluosogrwydd o ddyfodolion posibl.

Mae nifer o wahanol ddulliau o weithredu wrth ddatblygu senarios, ond yr un a ddefnyddir fwyaf mynych yw dull seiliedig ar sbardunau. (Gellir diffinio sbardun fel newid sylfaenol yng nghymdeithas, a fydd yn effeithio ar y sector neu ddiwydiant sydd dan arolwg.) Roedd prosiect y Bwrdd yn cynnwys y camau canlynol:-

Cam 1 – Astudiaeth a blaenoriaethu o sbardunau: Fe nodwyd oddeutu 50 o sbardunau trwy arolwg o adnoddau gwybodaeth presennol a chyfres o gyfweliadau gweithredol gyda chyfranddalwyr allweddol yn y diwydiant. Galluogodd gweithdy sbardunau i dros 35 o gyfranwyr cydweithio i glystyru/grwpio a blaenoriaethu sbardunau.

Cam 2 – Datblygu ac ymchwilio senarios: Roedd hyn yn cynnwys arolwg o'r clystyrau sbardun a flaenoriaethwyd i ffurfio echelinau senarios, gan ddilyn gyda gweithdai pellach i roi cig ar yr esgyrn ac i ymchwilio'r senarios posibl eraill.

Cam 3 – Oblygiadau Polisi: Galluogodd gweithdy terfynol i gyfranwyr brofi'r senarios ar gyfer ymatebion gwahanol gyfranddalwyr a sector diwydiant ac felly nodi nifer o oblygiadau polisi ac argymhellion strategol craidd.

Cam 4 – Canllawiau Terfynol: Cam olaf i gipio'r broses a'r cynnyrch ar ffurf cyflwyniad ac adroddiad i wasgaru ymysg cynulleidfa ehangach.

Cam 1

Yn y gweithdy ysgogwyr, fe flaenoriaethwyd yr ysgogwyr a nodwyd yn flaenorol a'u grwpio i wahanol glystyrau, fel a ganlyn:-

- **Amser defnyddwyr:** Mae bywydau defnyddwyr yn gynyddol brysur wrth iddynt geisio cyflawni cymaint ag sy'n bosibl gan arwain at gynllunio funud olaf, rhagor o wyliau byr ac ati.

- **Cyfoeth a lles:** Incwm gwario uwch yn arwain i wariant uwch ar brofiadau ac awydd am fwy na dim ond 'iechyd da'.

- **Cymdeithas gysylltiedig:** Mae defnyddwyr yn fwy hyderus wrth ddefnyddio technoleg ar gyfer tasgau pob dydd, gan gynnwys cadw mewn cysylltiad â'u gilydd.

- **Pyrth:** Mae defnyddwyr yn ddibynnol ar geir, yn arbennig tra ar wyliau yng Nghymru gan arwain at faterion mynediad a thagfeydd.

- **Bylchau sgiliau:** Toreth o weithredwyr bach yng Nghymru yn arwain at gylch dieflig o faint elw isel, diffyg buddsoddiad a hyfforddiant a phrisiau isel.
- **Datblygu brand:** Tra bod rhai yn chwilio am sicrwydd brand, mae eraill yn wfftio brandiau mawr o blaid defnydd i'r unigolyn – beth yw brand Cymru a sut mae'n rhan o hyn?

Cam 2

Edrychodd Canolfan Henley ar oruchafiaeth y grwpiau clwstwr i olrhain yr echel senarios sylfaenol.

Roedd un echel yn canolbwyntio ar agweddau defnyddwyr tuag at amser a dreulir ar wyliau. Roedd gwyliau 'araf' yn deithiau yn cynnwys profiadau mwy trwythuredig; roedd gwyliau 'cyflym' yn cynnwys ystod mwy eang o weithgareddau. Roedd yr echel arall yn seiliedig ar seilwaith ochr cyflenwad diwydiant gyda diwydiant mwy safonedig ar un pen a diwydiant mwy rhanedig ar y pen arall. Mae'r ddwy echel hyn yn rhoi cychwyn i bedwar senario:

Diwydiant twristiaeth
mwy safonedig

“Michelin Guide”

Bydd ymweliad i Gymru yn senario 1 yn gwarantu profiad da. Mae cynlluniau graddio gofalus yn cwmpasu popeth o lendid a rhwyddineb archebu, i gyfleusterau ar gyfer ymwelwyr diddordeb arbennig. Mae hyn yn gwneud archebu yn rhwydd ac fe ymchwilir ac archebir ar-lein. Mae’n syml dod o hyd i wyliau sy’n canolbwyntio ar brofiad penodol, megis deifio, neu daith o gestyll. Mae rheolau newydd ar lety wedi galluogi arhosiad cysurus ar bob pegwn i’r sbectrwm prisiau gan adael ymwelwyr yn rhydd i fwynhau’r naws a’r ardal waeth pa weithgaredd fyddant wedi dewis. Mae cydweithrediad a chydweithio gan pob cyfranddalwyr wedi bod yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y senario hwn.

“Berlitz Pocket Guide”

Mae newid radical wedi bod ym mhroffil ymwelwyr Cymru yn senario 2. Mae nifer uchel o ymwelwyr tramor, yn arbennig o Siapan ac America, yn dod ar becynnau gwerth uchel sy’n darparu ‘blas ar Gymru’. Mae’r newid hwn wedi bod diolch i welliannau mewn marchnata, seilwaith, graddio llym ac annog gweithredwyr i ffurfio partneriaethau. Mae Cymru wedi manteisio ar ei dreftadaeth o gestyll a cherddoriaeth ac wedi cofleidio chwaraeon newydd. Mae’r effaith ar sefydliadau ac atyniadau wedi bod yn gymysg – gyda busnesau nad oedd oeddynt yn bodloni safonau gwasanaeth yn colli eu trwyddedau – mae hyn wedi bod yn ddadleuol, ond mae wedi arwain at yr effaith werthfawr o fusnesau gydag uchelgeisiau is yn gwerthu.

‘Gwyliau cyflym’

“Rough Guide”

Mae ymweliad i Gymru yn senario 3 yn ymwneud ag unigrywiaeth y profiad. Mae defnyddwyr sy’n ymweld wedi treulio amser yn astudio eu cyrchfan yn ofalus i sicrhau eu bod yn cael profiad unigol iddyn nhw yn hytrach na chynnig brand mawr. Gallai’r profiadau fod yn unrhyw beth o chwaraeon i fwyd neu hyd yn oed bensaernïaeth, y pwynt allweddol yw ei fod i gyd am ddyfnder y profiad. I’r perwyl hwn, mae ansawdd yn bwysig ac mae gweithredwyr sy’n cynnig gwasanaeth da wedi gwthio eu “cyfatebwyr diofal” o’r farchnad. Gan y gallai dod o hyd i’r gwyliau iawn ymddangos fel hap a damwain, mae defnyddwyr yn dibynnu ar argymhellion ffrindiau a theulu wrth gynllunio eu hymweliad, ac mae galwadau am gynllun graddio hawdd i’w ddeall.

“Lonely Planet”

Mae Cymru yn frith o weithgareddau arbenigol yn senario 4. Mae digwyddiadau a phrofi nifer o wahanol brofiadau yn ysgogi’r farchnad. Gyda chymaint o weithredwyr yn cynnig popeth o gyrsiau syrffio i ddechreuwyr i benwythnos dirgelwch mewn gwesty, mae’r darlun cyfan yn fwy rhanedig ac mae’n anodd i sefydliad canolog ei fonitro a’i rheoli. I ddefnyddwyr, mae hyn yn golygu y gall ymchwilio ac archebu fod yn anodd, ac mae profiad ansawdd yn amrywiol iawn. Golyga hyn fod defnyddwyr yn gorfod dibynnu ar argymhellion ffrindiau a theulu cyn ymweld, ac o ganlyniad, mae Cymru yn colli cyfle i ddenu cryn nifer o ymwelwyr posibl.

Diwydiant twristiaeth
mwy unigol

Mae'r pedwar senario yn ymdrechu i crynhoi amrywiaeth o sefyllfaoedd posibl. Nid ydynt yn gyfres o opsiynau dyfodol ar wahân, yn arbennig mewn diwydiant mor amrywiol â thwristiaeth mae'n bendant y gall y pedwar senario gydfyw, a bod gan rai fwy o berthnasedd i rannau penodol o'r diwydiant yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae'r senarios yn ddefnyddiol i greu dealltwriaeth o ble mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd, a ble y gallai fod. Mae rhai o'r senarios yn gofyn am daith hirach (a mwy o waith) na'r gweddill, tra bod eraill, y gellir eu gweld fel agos i'r sefyllfa bresennol, yn cynrychioli gweledigaeth lai uchelgeisiol neu awyddus ar gyfer y dyfodol.

Ar lefel arall, nid yw'r senarios yn cynnig gwerth hafal i Gymru. Mae galluoedd diwydiant twristiaeth Cymru, ei seilwaith a'i fanteision cymharol, oll yn awgrymu y byddai rhai senarios yn fwy gwerthfawr nag eraill. Yn ogystal, mae'r gofynion polisi fod yn rhaid i strategaeth twristiaeth gael dimensiwn daearyddol a gofodol yn ffafrio senarios penodol. Felly, rhaid gwneud penderfyniadau strategol.

Mae'n bwysig y gellir trosi'r senarios i oblygiadau strategol. I helpu'r broses hon, fe astudiwyd y senarios yn ôl saith dimensiwn oedd yn caniatáu i'r gwahaniaethau rhyngddynt ddod yn glir iawn.

Dimensiwn	Cynnwys
Cwsmeriaid	*Pwy sy'n mynd i Gymru, pryd, ac am ba hyd?*
Cynnig a gweithredwyr	*Beth mae twristiaid yn ei wneud yng Nghymru a pha fath o weithredwyr sy'n cyflawni hyn?*
Sianelau a marchnata	*Sut mae defnyddwyr yn dod i wybod am gynigion ac archebu gwyliau?*
Brand	*Pa fath o frand a gyflwynir?*
Sylfaen sgil	*Sgiliau sydd eu hangen, arbenigwyr, bylchau, a gofynion hyfforddiant*
Gofodol	*Pa ran o Gymru sy'n elwa, a pha ran nad yw'n elwa?*
Trefniant	*Pwy sy'n cydweithio, gyda pwy, ac i ba berwyl?*

Dimensiwn	Michelin Guide	Berlitz Pocket Guide	Rough Guide	Lonely Planet
Cwsmeriaid	Gan fwyaf ymwelwyr DU; diddordeb arbennig	Rhyngwladol, mwy o ymweliadau cyntaf, byr	Ymwelwyr DU, gan fwyaf yn hŷn a theuluoedd	Ymwelwyr DU, tuedd iau
Cynnig a gweithredwyr	Gweithgareddau rhwydwaith arbenigol, gweithredwyr rheoledig	Strwythuredig, a yrrir gan weithredwr, graddio'n allweddol	Arbenigwyr trwyadl, ychydig o weithredwyr	Arbenigwyr bychan, gyrrir gan weithgaredd a digwyddiad
Sianelau a marchnata	Rhyngrwyd, gan gynnwys funud olaf,	Pyrth twristaidd, tramor, asiantau teithio	Y Wasg, rhyngrwyd, grwpiau diddordeb arbennig	Tafod lleferydd, marchnata ar gyfer digwyddiadau mawr, archebu'n anodd
Brand	Bathodyn sicrwydd ansawdd, sawl is-frand	Treftadaeth Cymru (hanes, diwydiant, amgylchedd)	Cymru gyfan, profiad 'dwfn'	Rhanedig: lleoliad digwyddiad, rhai yn ymwneud â threftadaeth
Sylfaen sgil	Staff/gwasanaeth yn allweddol i 'sicrwydd ansawdd'	Gwasanaeth gwesty o lefel uchel (prinder staff)	Angen staff arbenigol/ brwdfrydig	Prinder, yn arbennig ar gyfer llety
Gofodol	Ardaloedd wedi eu datblygu'n dda yn ffynnu ar draul eraill	Bratiog: nifer gyfyngedig o ardaloedd twristaidd 'gwerth uchel'	Canolfan profiad, cefn gwlad yn bwysig	Materion trafnidiaeth, ardaloedd heb ddigwyddiad yn dioddef
Trefniant	Gweithredwyr, cyhoeddus-preifat, o fewn masnach	Pyrth, atyniadau, gweithredwyr	BCC, ALl a PTRh yn cydweithio	CCGC ac ALl, trefnwyr digwyddiadau, gweithredwyr arbenigol

<u>Camau 3 a 4: Senarios i strategaeth</u>

Mae datblygu senario yn galluogi sefydliad i ystyried y dyfodol mewn sawl ffordd wahanol:

- Mae'n cefnogi asesiad o 'flaenoriaethau strategol' h.y. mae senarios yn cynrychioli dyfodolion posibl ac mae rhai yn fwy peryglus ac yn anodd i'w dylanwadu nag eraill;
- Mae'n galluogi dynodi peryglon a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â phob blaenoriaeth strategol;

- Mae'n galluogi dynodi 'hanfodion strategol' – materion strategol sy'n gyffredin ym mhob senario ac, felly, y bydd angen eu hwynebu waeth pa senario sydd fwyaf gwerthfawr neu gyflawnadwy.

Blaenoriaethau strategol

Mae gan y senarios oblygiadau pendant ar gyfer datblygiad gorau posibl diwydiant twristiaeth Cymru.

- Mae gan senario **'Berlitz'**, a arweinir gan becynnau neu fargenion rhad, yn ddibynnol gan fwyaf ar wyliau byr pris isel, ei atynfeydd. Yn eu mysg mae (os y byddai'n gweithio) y byddai'n fodd effeithiol o ddenu ymwelwyr am y tro cyntaf, a masnachu ar allu profedig Cymru i'w trosi i ymwelwyr dychwel. Fodd bynnag, mae diffyg perthynol meysydd awyr porth (tu hwn ti Gaerdydd, a hyd yn oed wedi caniatáu ar gyfer y rhai yng Ngogledd-orllewin Lloegr) yn awgrymu y byddai'n anodd i'w gyflawni. Yn ogystal, mae'n ddibynnol naill ai ar weithredwyr sydd wedi bod yn amharod i ddatblygu cynnig o'r fath i Gymru, neu ar weithredwyr newydd a fyddai'n fwy na thebyg yn amrhofedig. A byddai' adnoddau angenrheidiol i ymdrechu i ddatblygu cynnig o'r fath yn lleihau'r cwmpas i ddatblygu'r diwydiant mewn modd sy'n chwarae i'w gryfderau perthynol.

- Mae cryfderau Cymru, o'i gyferbynnu, yn ymddangos o fod yn fwy addas ar gyfer y farchnad unigoledig, ac i dwristiaid sydd â mwy o ddiddordeb mewn profiad gwyliau 'ymgollianol' neu 'araf'. Mae'r cyfoeth o asedau treftadaeth yn ategu hyn yn arbennig. Ond mae'n gamgymeriad i gredu nad yw senario'r **'Rough Guide'** yn cyflwyno cryn heriau am fod ganddo debygrwydd i gynnig presennol Cymru. Yn benodol, heb welliannau sylweddol i ansawdd, fel a fanylir yn yr adran 'Hanfodion Strategol' uchod, nid yw'r senario hwn yn debygol o gyflawni'r elw a'r gwerth sy'n angenrheidiol i ddiwydiant os yw i fodloni'r nodau a osodwyd gan y Cynulliad.

- Ar ei ben ei hun, mae senario **'Rough Guide'** yn gadael bylchau yn y strategaeth. Ar ei ben ei hun, nid yw'n gwneud digon i ddenu ymwelwyr rhyngwladol, na chreu rhesymau i ymwelwyr tro cyntaf sylwi ar Gymru, neu ymweld. Mae senario **'Michelin'** yn nodi potensial strategol llety pen uchaf a gwerth uwch, gydag atyniadau yn rhan ohonynt (e.e. y gwesty sba neu golff) sy'n uno asedau diwylliannol, hanesyddol ac amgylcheddol y wlad. Mae'r lefel o fuddsoddiad sector preifat sydd angen yn llai ac yn fwy strategol nag yn senario 'Berlitz', byddai'r achos busnes yn haws i'w brofi, ac mae'r amrywiaeth o bartneriaid sector preifat posibl yn fwy. Ar yr un pryd, mae partneriaid o'r fath yn creu amlygrwydd i Gymru fel cyrchfan yn y gofod ar-lein, hyd yn oes os yw amlygrwydd o'r fath yn uchelgeisiol ar gyfer y mwyafrif o ymwelwyr posibl.

- Mae gan senario **'Lonely Planet'**, fel yr awgryma'r enw, debygrwydd i senario 'Rough Guide'. Mae'r rhain yn bennaf ar yr ochr gyflenwi, sy'n parhau i fod yn fwy rhanedig. Mae manteision y senario hwn i amrywiaeth cynigion potensial Cymru yn driphlyg:

- Trwy ddatblygu cynnig yn seiliedig ar ddigwyddiad maent yn creu rhesymau i ymwelwyr tua chanol yr ystod pris i ddod i Gymru am y tro cyntaf.

- Mae gan natur y cynnig y potensial i ymestyn y tymor tu hwnt i'r haf

- Yn allweddol, mae'n creu potensial i ddenu ymwelwyr i rannau o Gymru sydd â llai o asedau twristaidd, e.e. y Canolbarth.

- Y sylw olaf yw fod y senarios ar hanner gwaelod y grid (**'Rough Guide'** a **'Lonely Planet'**) yn gofyn am, oherwydd natur mwy rhanedig y diwydiant, weithrediad effeithiol a chynnar o adnodd marchnata ac archebu ar-lein.

Peryglon a chyfloedd sy'n gysylltiedig â phob senario

Senario 1: 'Michelin Guide'	**Senario 2: 'Berlitz Pocket Guide'**
- Gweithredwyr brand yn dosbarthu cynnyrch o ansawdd ond arbenigol <u>Cyfleoedd:</u> ▪ Gosod safonau y mae angen mawr amdanynt yn y diwydiant ▪ Debyg i gynyddu apêl Cymru i gwsmeriaid rhyngwladol a gwerth uchel <u>Peryglon:</u> ▪ Gofyn am fuddsoddiad sylweddol ▪ Anodd i gael cydweithrediad pob plaid ▪ Bwrdd Croeso i gael swyddogaeth anodd fel canolwr ▪ Pwysig osgoi'r perygl o 'homogeneiddio' y cynnig	*- Marchnad gwyliau byr wedi datblygu* <u>Cyfleoedd:</u> ▪ Creu gwerth newydd yn nhwristiaeth <u>Peryglon:</u> ▪ Dibynnu ar fynediad rhwydd i Gymru ▪ Angen brand Cymru cryf ▪ Gofyn i weithredwyr symud tu allan i'r tymor traddodiadol a bod yn fwy ymatebol ▪ Gwleidyddol simsan – gofyn i newydd ddyfodiaid gael â gweithredwyr presennol
Senario 3: 'Rough Guide'	**Senario 4: 'Trailfinders'**
- Agosaf i'r farchnad bresennol <u>Cyfleoedd:</u> ▪ Cynyddu gwerth diwydiant twristaidd heb fod angen buddsoddiad sylweddol <u>Peryglon:</u> ▪ Gofyn am symudiad i uwchraddio ansawdd y cynnig ▪ Efallai na fydd teithwyr unigol yn gwarantu digon o faint i gyflawni'r gwerth angenrheidiol ▪ Perygl na fydd canolbwynt ar ymwelwyr gwerth uchel, cynhwysedd isel yn cyflawni enillion economaidd digonol ▪ Nid yw'n cyflwyno 'her'	*- Amrywiaeth o weithredwyr bychan, gyrrir gan ddigwyddiadau a 'phrofiad'* <u>Cyfleoedd:</u> ▪ Cynnig hawdd i'w gefnogi sy'n apelio o 'agosrwydd' a 'unigoliaeth' <u>Peryglon</u>: ▪ Darniad ac anghysondeb y profiad yn annymunol *- Profiadau 'profi'* <u>Cyfleoedd:</u> ▪ Digwyddiadau, gwyliau ac ati yn rhesymau newydd i barhau i ddenu ymwelwyr i Gymru ▪ Annog ymwelwyr tro cyntaf hollbwysig <u>Peryglon:</u> ▪ Cyfyngedig o ran annog ymweliadau dychwel ▪ Perygl o ganibaleiddio ymwelwyr a gwariant

Hanfodion Strategol

Mae'r hanfodion strategol sy'n wynebu diwydiant twristaidd Cymru yn gyffredin i dwristiaeth ledled y rhan fwyaf o Brydain ac Ewrop. Mae'r rhain yn ymwneud â disgwyliadau'r defnyddiwr am ansawdd, gwerth, gwasanaeth a rhwyddineb defnydd. Mae Cymru yn sicr wedi datblygu, ond mae'r cystadleuwyr wedi bod yn datblygu o leiaf yr un mor gyflym.

Felly, bydd yr hanfodion strategol yn gyffredinol gyfarwydd ond bydd dal angen eu hwynebu.

- **Ansawdd llety**: mae'n fater ledled y sector, p'un a yw â gwasanaeth neu heb wasanaeth, bron a bod waeth ble yw'r lleoliad.

  - Ar ben uchaf y farchnad, prin yw'r gwestai 5 seren y tu allan i Gaerdydd, a ledled Cymru ychydig sydd o'r gwestai moethus arbenigol sy'n creu eu galw eu hunain ac yn creu proffil, cynhyrchu sylw positif yn y wasg a dehongliad cyffredinol o ansawdd.

  - Ar ben gwaelod y farchnad, mae'n parhau i fod gormod o lety o ansawdd isel sy'n difrodi dehongliad ymwelwyr o gynnig Cymru yn gyffredinol.

  - Mae tystiolaeth o farchnadoedd eraill hefyd yn awgrymu fod buddsoddi mewn gwella ansawdd llety yn talu ar ei ganfed.

  - Mae materion heb eu datrys yn parhau i fodoli ynghylch cyflenwyr 'ffordd o fyw', sydd o bosibl ddim ond am weithio am gyfnod o'r flwyddyn am resymau ariannol (e.e. am nad ydynt am eisiau cofrestru ar gyfer TAW). Mae rhai o ansawdd isel; mae eraill o ansawdd gwell, yn helpu llenwi tra'i bod yn brysur yn yr haf heb gystadlu pan fo nifer ymwelwyr yn gostwng tu allan i'r tymor.

  - Y goblygiad amlwg yw y dylai Bwrdd Croeso Cymru drefnu mesurau i wella neu gael gwared o'r farchnad y llety o ansawdd isel tra'n dilyn strategaeth bendant i wella ansawdd y gweddill. Yn achos y gwestai ar ben yr ystod, gallai hyn olygu datblygu partneriaethau newydd gyda chyflenwyr sector preifat.

- **Mae ansawdd atyniadau hefyd yn amrywiol.** Dylai ymyrraeth i wella eu hansawdd gyffredinol fod wedi ei yrru gan ofynion datblygiad brand Cymru a hefyd yr angen i gefnogi strategaeth ofodol i dwristiaeth. Fodd bynnag, er mwyn ymestyn y tymor a chynyddu gwariant y pen ar y cyfan, mae'n amlwg fod angen i'r llety fod ar gael i aros ynddo ac i'r atyniadau fod ar agor i'w hymweld.

- **Mae Cymru yn parhau i fod yn dameidiog o ran amlygrwydd ar-lein,** sy'n adlewyrchu darniad cyffredinol y diwydiant, a'r diffyg buddsoddiad ynddo. Fodd bynnag, tra'i bod yn hawdd i sefydliad gredu mai'r ateb i hyn yw cronfa ddata fawr a reolir yn ganolog, mae agwedd o'r fath yn berygl ac yn debygol o gael ei ddisodli gan ddatblygiad technolegau rhyngrwyd gynyddol agored.

- **Rhaid cysylltu gwelliant mewn ansawdd a gwelliant mewn lefelau sgil.** Dyma un o'r materion anoddaf i ddatrys. Ar un lefel, bydd diwydiant llwyddiannus sy'n cynhyrchu incwm uwch yn gwella ei sgiliau sylfaenol trwy allu cynnig gwell cyflogau a'r addewid o ddatblygu gyrfa. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn ddigon os nad yw'r cyflenwad o lafur medrus ar gael, ac mae'n cymryd amser i ddatblygu cyrsiau hyfforddi a'u hachredu.

- Er bod cryn ddatblygiad wedi bod mewn blynyddoedd diweddar i **wella safle brand Cymru**, gallai hyn fod yn fwy cydlynol, wedi ei gysylltu'n agosach i'r strategaeth dwristiaeth gyffredinol, ac wedi ei weithredu'n fwy trylwyr.

3. GOBLYGIADAU POLISI, ARGYMHELLION TERFYNOL A CHAMAU NESAF

O ganlyniad i'r broses senarios a thrwy drafodaethau yn y gweithdy terfynol, fe gynhyrchodd Henley grynodeb o oblygiadau polisi ac argymhellion terfynol, sy'n dilyn. Dylid ystyried y rhain yng nghyd-destun y 4 senario.

Argymhellir y dylid defnyddio'r crynodeb hwn fel sylfaen ar gyfer trafodaethau pellach a blaenoriaethu fel cyfraniad i ffurfio'r strategaeth.

Mae'r arolwg o *Cyflawni ein Potensial* a datblygiad y broses cynllunio busnes o fewn y Bwrdd yn feysydd ymarferol ble mae gan y materion a gododd yng ngwaith Henley ddefnydd ymarferol.

Ni fwriadwyd gwaith Henley, fodd bynnag, i fod o fudd i'r Bwrdd yn unig, ond ar gyfer y diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn gyffredinol. Maen fwriad gan y Bwrdd i gynnwys y diwydiant i gyd yn lledaeniad dull Henley o'r gweithdai a ffurfiodd ran ganolog o'r prosiect.

Dimensiwn	Ble ydyn ni nawr?		Beth ddylem ei wneud?	Ble ydyn ni am fod?			Pam y dylem fod yn gwneud hyn?
	Materion cyffredinol	**Mater penodol**	**Gweithredu**	**Effaith gyffredinol**	**Effaith ar y sector**	**Effaith gofodol**	**Gyrwyr defnyddwyr cefnogol**
Cwsmeriaid	- Camgymhariad rhwng maint a gwerth twristiaid i Gymru - Denu nifer anghymharol o ymwelwyr domestig, gwerth isel - Tymor wedi canolbwyntio'n ormodol ym misoedd yr haf - Tra bod gan gwsmeriaid batrymau gwyliau cynyddol hyblyg, diwydiant Cymru yn dal yn gwyro'n anghymharus tuag at wyliau hirach teuluol	- Cyfran isel o ymwelwyr rhyngwladol	- Datblygu cynnig Cymru o amgylch atyniadau twristaidd 'gorau yn eu dosbarth' a chynigion cysylltiedig ar thema treftadaeth (h.y. safleoedd treftadaeth y byd yng Ngogledd a De Cymru, treftadaeth amgylcheddol yn Eryri, treftadaeth ddiwylliannol yng Nghaerdydd a threftadaeth lenyddol yn Nhalacharn) - Angen cefnogaeth weithredol VisitBritain	- Creu amlygrwydd i Gymru o amgylch ei atyniadau ansawdd uchel - Cynyddu posibiliadau ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol	- Atyniadau yn cynnwys rhai cyhoeddus – safleoedd CADW - Parc Cenedlaethol Eryri - Awdurdodau lleol	- Gogledd-orllewin Cymru - De-ddwyrain Cymru - Gorllewin Cymru	- Amrywiaeth a galwadau am amrywiaeth - Nodweddion rhanbarthol - Twf cwmnïau hedfan pris isel - Mwy o wyliau byr
		- Nifer anghymharus o wyliau haf hir traddodiadol	- Dylai'r Bwrdd ariannu cynllun 'ymchwil weithredol' yn seiliedig ar arloesi i ddatblygu, profi a gwerthuso dulliau newydd o symud y tu allan i'r tymor brig (e.e. y farchnad gwyliau byr, cynigion newydd canol wythnos a thu allan i'r tymor, marchnadoedd arbenigol) - Dylai'r Bwrdd ysgogi a chefnogi datblygiad strategaeth ddigwyddiadau	- I ddatblygu dull a mentrau ar gyfer tymor gwyliau mwy hyblyg sy'n cyd-fynd â galluoedd diwydiant twristaidd Cymru	- Llety â gwasanaeth (mae gwyliau byr yn ymwneud â chyfleustra) - Mae atyniadau yn cynyddu o ran pwysigrwydd y tu allan i'r tymor brig a phwyslais ar y tirlun	- Bydd hyn yn fwy o her i ardaloedd mwy diarffordd, megis cyrchfannau arfordirol a llefydd yn y Canolbarth	- Mwy o wyliau byr - Chwilio am, gydbwysedd bywyd a gwaith - Cymdeithas funud olaf - Popeth yn disgyn?

Dimensiwn	**Ble ydyn ni nawr?**		**Beth ddylem ei wneud?**	**Ble ydyn ni am fod?**			**Pam y dylem fod yn gwneud hyn?**
	Materion cyffredinol	**Mater penodol**	**Gweithredu**	**Effaith gyffredinol**	**Effaith ar y sector**	**Effaith gofodol**	**Gyrwyr defnyddwyr cefnogol**
Cynnig a gweithredwyr	- Ansawdd llety ac atyniadau yn aml yn isel ac anghyson - Nifer ar agor am gyfnod byr yn unig - Perygl o ddibrisio dehongliad yr ymwelydd a chreu enw drwg	- Lefelau anghyson o ansawdd a phroffesiynoldeb yn y sector atyniadau	- Dylai'r Bwrdd raddio atyniadau yn ôl tariff sy'n rhoi ystyriaeth i unioni â strategaeth ofodol a brand, hyd y tymor agored, ac ansawdd profiad y cwsmer a staff – lefel cefnogaeth (ariannol a di-ariannol) yn ddibynnol ar sgôr tariff - Dylai'r Bwrdd wahaniaethu yn y strategaeth ddatblygu hon rhwng atyniadau sydd ar hyn o bryd yn cefnogi cyflawniad strategaeth twristiaeth, y rhai sydd â photensial i wneud, a'r rhai nad ydynt	- Galluogi Cymru i ddatblygu cyfres o atyniadau dengar gan ganolbwyntio adnoddau ble byddant yn cael y mwyaf o effaith	- Atyniadau (sector cyhoeddus a phreifat)	- Potensial i ddefnyddio atyniadau arbennig i ddenu ymwelwyr i ranbarthau penodol	- Amrywiaeth a gofynion amrywiaeth - Pwysau amser - Cymdeithas funud olaf - Silod mân

Dimensiwn	**Ble ydyn ni nawr?**		**Beth ddylem ei wneud?**	**Ble ydyn ni am fod?**			**Pam y dylem fod yn gwneud hyn?**
	Materion cyffredinol	**Mater penodol**	**Gweithredu**	**Effaith gyffredinol**	**Effaith ar y sector**	**Effaith gofodol**	**Gyrwyr defnyddwyr cefnogol**
Cynnig a gweithredwyr, parhâd	- Ansawdd llety ac atyniadau yn aml yn isel ac anghyson - Nifer ar agor am gyfnod byr yn unig - Perygl o ddibrisio dehongliad yr ymwelydd a chreu enw drwg	- Lefelau anghyson o ansawdd a phroffesiynoldeb yn y sector llety, yn arbennig â gwasnaaeth	- Dylai'r Bwrdd barhau i gefnogi cynllun cofrestru statudol Dylai'r Bwrdd gefnogi cynllun meincnodi gan wthio meini prawf mwy llym wrth bennu dosbarthiad - Dylai'r Bwrdd sicrhau fod y cynllun graddio wedi ei unioni â system Prydain tra'n parhau i gipio nodweddion penodol i Gymru e.e. ansawdd y dirwedd	- I gynyddu ansawdd a chysondeb safonau llety	- Llety (pwyslais ar sector â gwasanaeth) - Gweithredwyr llai a diffyg cyllid i fuddsoddi hefyd yn debygol o gael eu heffeithio	- Cyfran fawr o gyflenwad gwlâu Cymru i'w cael yng nghyrchfannau arfordir y Gogledd – gallai'r rhain fod angen buddsoddiad sylweddol	- Cwsmer ag awdurdod - Pawb yn disgyn? - Un dros bawb a phawb dros un - Goroesiad stereoteip

Dimensiwn	Ble ydyn ni nawr?		Beth ddylem ei wneud?	Ble ydyn ni am fod?			Pam y dylem fod yn gwneud hyn?
	Materion cyffredinol	**Mater penodol**	**Gweithredu**	**Effaith gyffredinol**	**Effaith ar y sector**	**Effaith gofodol**	**Gyrwyr defnyddwyr cefnogol**
Cynnig a gweithredwyr parhâd.	- Ansawdd llety ac atyniadau yn aml yn isel ac anghyson - Nifer ar agor am gyfnod byr yn unig - Perygl o ddibrisio dehongliad yr ymwelydd a chreu enw drwg	- Diffyg gwestai a chynigion arbennig adnabyddus a phen uchaf y farchnad	- Dylai'r Bwrdd chwilio am fodelau datblygu newydd, gan gynnwys partneriaethau, i annog cynigion ansawdd arbenigol sylweddol, e.e. sbaon, gwestai golff, adeiladau hamdden	- I gynyddu amlygrwydd Cymru i ymwelwyr pen ucha'r farchnad a rhyngwladol yn arbennig - I wella dehongliad o Gymru i ymwelwyr potensial	- Sector â gwasanaeth	- Perthnasol i ardaloedd â manteision deniadol, e.e. cyswllt trafnidiaeth da, tirwedd atyniadol	- Cymdeithas gynyddol gefnog - Tafod lleferydd - Angen am sicrwydd brand - Silod mân
Sianelau a marchnata	- Mae cwsmeriaid yn gynyddol dibynnol ar y rhyngrwyd i ymchwilio, gynllunio ac archebu gwyliau - Diwydiant twristiaeth Cymru ar lefel gyffredinol wedi bod yn araf i ymateb ac integreiddio'r rhyngrwyd yn llawn i'w strategaeth marchnata a gwerthiant	- Yn ei gwneud yn haws i gwsmeriaid sydd â diddordeb ymchwilio, gynllunio ac archebu profiad gwyliau ar-lein	- Dylai'r Bwrdd weithio gyda gweithredwyr, atyniadau perthnasol, digwyddiadau, a'r pyrth teithiau twristaidd allweddol i ddatblygu rhannu defnydd o asedau ar-lein a phrotocolau a gytunwyd ar gyfer cyfnewid data - Dylai'r Bwrdd weithio gyda datblygwyr meddalwedd Cymreig i ddatblygu arfau technegol, sy'n galluogi gweithredwyr llai i ddatblygu eu presenoldeb ar-lein gyda chyswllt i safle(oedd) twristiaeth Cymru	- Cynyddu amlygrwydd y diwydiant a sicrhau diddordeb a llif ymwelwyr, yn arbennig twristiaid tro cyntaf	- Tebygol o effeithio ar bob sector	- Tebygol o effeithio ar bob ardal	- Cymdeithas gysylltiedig - Mwy o wyliau byr - Dilyw o gyfryngau - Cymdeithas funud olaf

Dimensiwn	**Ble ydyn ni nawr?**		**Beth ddylem ei wneud?**	**Ble ydyn ni am fod?**			**Pam y dylem fod yn gwneud hyn?**
	Materion cyffredinol	**Mater penodol**	**Gweithredu**	**Effaith gyffredinol**	**Effaith ar y sector**	**Effaith gofodol**	**Gyrwyr defnyddwyr cefnogol**
Brandio	- Ar lefel genedlaethol, mae brand Cymru yn dioddef oherwydd diffyg dealltwriaeth o werthoedd a nodweddion positif pendant - Ar lefel ryngwladol mae Cymru yn dioddef o ddiffyg ymwybyddiaeth	- Cyfran isel o ymwelwyr rhyngwladol	- Dylai'r Bwrdd fuddsoddi mewn creu ymwybyddiaeth mewn marchnadoedd a ddiffinnir fel targed potensial allweddol - Dylai'r Bwrdd gefnogi diddordeb posibl trwy fuddsoddi mewn adnoddau twristiaeth lleol - Dylai'r Bwrdd ddatblygu cysylltiadau â gweithredwyr tramor	- I gynyddu'r nifer o ymwelwyr rhyngwladol	- Bydd angen i lety fuddsoddi mewn darparu cyfleusterau archebu gwell a chynnig mwy o hyblygrwydd	- Tebygol o effeithio ar bob ardal	- Goroesiad stereoteip - Mwy o wyliau byr
		- Diffyg profiadau Cymreig wedi eu diffinio'n glir	- Dylai'r Bwrdd gefnogi yn weithredol atyniadau sy'n cefnogi naws am le (am fanylion gweler o dan 'cynnig a gweithredwyr')	- I gynyddu amlygrwydd ac apêl gystadleuol Cymru fel cyrchfan gwyliau	- Tebygol o effeithio ar bob sector	- Bydd angen i bob rhanbarth bennu ei safle o fewn y weledigaeth gyffredinol i Gymru	- Angen am sicrwydd brand - Goroesiad stereoteip

Dimensiwn	**Ble ydyn ni nawr?**		**Beth ddylem ei wneud?**	**Ble ydyn ni am fod?**			**Pam y dylem fod yn gwneud hyn?**
	Materion cyffredinol	**Mater penodol**	**Gweithredu**	**Effaith gyffredinol**	**Effaith ar y sector**	**Effaith gofodol**	**Gyrwyr defnyddwyr cefnogol**
Brandio, parhâd	Parhâd - Ar lefel genedlaethol, mae brand Cymru yn dioddef oherwydd diffyg dealltwriaeth o werthoedd a nodweddion positif pendant - Ar lefel ryngwladol mae Cymru yn dioddef o ddiffyg ymwybyddiaeth	- Diffyg dealltwriaeth a buddsoddiad yn y weledigaeth ar gyfer brand Cymru gan weithredwyr	- Dylai'r Bwrdd weithio gyda gweithredwyr i ddatblygu pensaernïaeth brand pendant gyda chanllawiau a manteision mwy amlwg i'r rhai cyfrannog	- I wella cryfder a chyseiniant brand Cymru	- Gallai'r pwyslais mwy ar lefel uwch hyn fod yn sialens i weithredwyr llai sy'n edrych mwy ar y presennol	- Bydd angen i bob rhanbarth bennu ei safle o fewn y weledigaeth gyffredinol i Gymru	- Goroesiad stereoteip - Un dros bawb a phawb dros un? - Silod mân
Sylfaen sgil	- Nifer fawr o weithredwyr bychan yng Nghymru yn creu cylch dieflig o elw isel a diffyg buddsoddiad - Gweithredwyr yn methu buddsoddi mewn cyflogau cystadleuol, hyfforddi staff, gan arwain at ddisgwyliadau isel o yrfa a diffyg staff medrus	- Gweithredwyr yn ei chael yn anodd i benodi a chynnal staff - Gweithredwyr yn annhebygol o gynyddu cyflog staff	- Dylai'r Bwrdd gymell gweithredwyr i wella sgiliau, gadw staff, ddatblygu llwybr gyrfa a gwella ansawdd gyffredinol eu cynnig - Dylai'r bwrdd wneud cefnogaeth llywodraeth yn amod ar lefelau uwch o ddosbarthiad a gwell hyfforddiant i staff	- Cynyddu lefel penodi a chadw yn y diwydiant	- Perthnasol i sectorau sy'n dibynnu naill ai ar gynnig gwasanaeth da neu sy'n galw am staff medrus arbenigol	- Ardaloedd gwledig ar hyn o bryd yn ei chael yn anodd i ddenu a chadw staff	- Silod mân - Bwlch sgiliau

Dimensiwn	Ble ydyn ni nawr?		Beth ddylem ei wneud?	Ble ydyn ni am fod?			Pam y dylem fod yn gwneud hyn?
	Materion cyffredinol	**Mater penodol**	**Gweithredu**	**Effaith gyffredinol**	**Effaith ar y sector**	**Effaith gofodol**	**Gyrwyr defnyddwyr cefnogol**
Gofodol	- Manteision twristiaeth yng Nghymru heb eu lledaenu'n hafal oherwydd rhwystrau corfforol - Atyniadau allweddol, megis Eryri, yn canoli ymwelwyr yn yr ardal honno - Mynediad i bob rhanbarth yn aml wedi ei lesteirio gan rwydweithiau trafnidiaeth a chyswllt pyrth gwael	- Rhanbarthau diarffordd neu'r rhai heb fynediad hwylus angen rhoi rheswm i ymwelwyr potensial dros wneud y daith	- Dylid cynllunio a chyflawni'r cynlluniau gweithredu a amlinellir uchod ar lefel ranbarthol, e.e. dylai meini prawf cynllun graddio gyd-fynd â strategaeth ofodol - Dylai'r Bwrdd geisio'n weithredol i arwain y blaen wrth weithredu strategaeth ddigwyddiadau a gytunir, gyda phwyslais arbennig ar ddigwyddiadau 'gorau yn eu dosbarth', i wneud y gorau o'r potensial twristaidd	- Datblygu manteision economaidd twristiaeth ledled Cymru	- Perthnasol i bob sector	- Cyfle i ddenu ymwelwyr i ardaloedd o Gymru a fyddai fel arall yn parhau i fod heb eu datblygu, Maes y Sioe yn Llanelwedd	- Dibyniaeth ar gar - Amrywiaeth a galwadau am amrywiaeth - Mwy o wyliau byr - Hynodrwydd rhanbarthol
Trefniant	- Gyda nifer fawr o weithredwyr bychan, mae'r diwydiant yn fratiog - Angen gwella perthynas weithredol rhwng y sector cyhoeddus a phreifat a gwahanol gyfranddalwyr	- Gwell unioniad o amcanion ymysg sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn twristiaeth, datblygu economaidd, treftadaeth, a datblygiad diwylliant	- Dylai'r Bwrdd ymyrryd mewn meysydd ble mae sawl asiant cyhoeddus a phreifat yn cymryd rhan i sicrhau fod adnoddau yn cael eu cyfeirio tuag at gefnogi'r strategaeth dwristiaeth, e.e. mae 74% o'r rhai ar wyliau yng Nghymru yn mynd i gerdded, ac eto efallai nad yw cynnal y llwybrau yn flaenoriaeth i'r rhai sydd â'r grym i wneud	- Gwella mynediad i dwristiaeth er budd pob cyfranddaliwr	- Perthnasol i bob sector	- Perthnasol i bob sector	- Un dros bawb a phawb dros un? - Cyllid cynaliadwy